Trefniadau diwedd y dydd a pharcio

PWYSIG:
Materion Iechyd a Diogelwch

1. Mae'n bwysig o ran diogelwch y plant fod athrawon yn medru gweld y rhieni fel bod y trosglwyddiad yn cael ei wneud yn ddiogel. Gofynnaf felly i bawb ddilyn y trefniadau canlynol -
   i. Ni ddylai rhieni (**na disgyblion o'r Ysgol Uwchradd sy'n casglu eu brodyr a chwiorydd**) ddod heibio'r giât las ger dosbarth Dewi.
   ii. Ni ddylai rhieni adael i'w plant ddod yn ôl i mewn i'r ysgol wedi iddynt gael eu rhyddhau iddynt. Mae hyn yn cynnwys gadael i'r plant ddod yn ôl i ddefnyddio'r cyfarpar chwarae (y trên a'r llong).
   iii. Dylai rhieni disgyblion yr adran iau aros am eu plant yn y maes parcio.
   iv. Dylid cadw'r llwybr rhwng y giât las a'r maes parcio yn glir.
2. Mae holl staff yr ysgol a'r Corff Llywodraethol yn parhau yn gonsyrnol iawn ynglŷn â'r sefyllfa parcio ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Anogaf rieni i beidio â pharcio wrth fynedfa'r ysgol ac yn sicr**, NI DDYLAI RHIENI FOD YN BACIO NÔL TRA BOD PLANT O GWMPAS.** Drwy wneud hyn yr ydych yn peryglu bywydau'r plant.
3. Mae diogelwch ein disgyblion yn holl bwysig yn Ysgol Gynradd Aberteifi. Gofynnwn i chi beidio â pharcio ar bwys y **potiau blodau mawr wrth ymyl y rhwystrau** yn y maes parcio cyhoeddus ar ddechrau nac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
4. Dylai rhieni hefyd gofio mai bws gwasanaeth sy'n cludo'r disgyblion adref, ac nid bws ysgol ddynodedig. Dylech ystyried yn ofalus a ydy'ch plentyn yn ddigon aeddfed i deithio ar y bws heb oedolyn yn gyfrifol amdano.
5. Yn y boreau ni ddylai rhieni na phlant ddefnyddio'r brif giât ond yn hytrach y giât fach ddu. Bydd hyn yn gwahanu cerddwyr a cheir.
6. **Bydd y brif giât ar gyfer cerbydau ar gau rhwng 8.50-9.10yb a 3.20-3.40 bob dydd. Bydd hyn yn gwahanu cerddwyr a cheir ac yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ar ddiwedd y dydd.**

A fyddech mor garedig a rhannu'r neges yma gyda phawb sydd yn dod i gasglu eich plant o'r ysgol.

Diolch yn fawr,

Donna Hanly (Pennaeth)

Mr John Adams-Lewis (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Gofynnwn yn garedig i chi beidio â theithio yn gyflymach na 5 milltir yr awr ar dir yr ysgol.